# SYNIADAU

## Y Cyfarfod Mawr ar 05/12/2016

# SYNIAD 1:

Dylai Undeb Myfyrwyr Aberystwyth annog Prifysgol Aberystwyth i ddadfuddsoddi o danwyddau ffosil.

## Y FFEITHIAU:

Yn nhabl cynghrair diweddaraf *People and Planet*, daeth Prifysgol Aberystwyth yn 110fed allan o 150 yn y DU o ran cynaladwyedd. Hefyd cafodd sgôr o 0% am fuddsoddiad moesegol a dyma'r rhesymau:
- Mae Prifysgol Aberystwyth wedi buddsoddi £2,122,752 mewn tanwyddau ffosil (Ffynhonnell: People and Planet).
- Mae hefyd yn derbyn £377,496 o gyllid ymchwil o'r diwydiant tanwyddau ffosil ac nid yw'n rhoi dim cyllid tuag at ymchwilio i dechnolegau adnewyddadwy ers 2001. (Ffynhonnell: People and Planet).
- Ar hyn o bryd nid oes gan y brifysgol ymrwymiad i ddadfuddsoddi o danwydd ffosil.

Yn yr arolwg diweddar ar gynaladwyedd a gynhaliwyd ymysg staff a myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth, dwedodd 91% o'r ymatebwyr y dylai'r Brifysgol wneud mwy i leihau ei heffaith ar yr amgylchedd, a dywedodd 92% y dylai'r Brifysgol ddadfuddsoddi o danwydd ffosil.

## BARN Y BOBL:

Os yw'r anghywir i ddinistrio'r amgylchedd, yna mae'n anghywir elwa o'r dinistr hwnnw. Mae gormod o brifysgolion y DU yn cefnogi'r diwydiant tanwydd ffosil yn uniongyrchol drwy eu hymchwil, eu gwaddolion a'u buddsoddiadau, yn ogystal â'u partneriaethau â rhai o'r cwmnïau tanwydd ffosil mwyaf yn y byd, megis BP a Shell. Rydym yn galw ar Brifysgol Aberystwyth i dorri pob cysylltiad â'r diwydiant tanwydd ffosil, sy'n gosod elw o flaen pobl.

## Y DATRYSIAD:

Er mwyn mynd yn Rhydd o Ffosil, rydym yn annog Prifysgol Aberystwyth i wneud y canlynol:

1. Symud ei harian.
- Chwilio am ac allgau'r diwydiant tanwydd ffosil o bortffolio buddsoddiadau'r Brifysgol.
- Rhewi ar unwaith unrhyw fuddsoddiad newydd mewn cwmnïau tanwydd ffosil.
- Dadfuddsoddi o'r diwydiant tanwydd ffosil a throsglwyddo'r arian i fuddsoddiadau cadarnhaol, moesegol o fewn 5 mlynedd.

2. Cefnogi dyfodol ar gyfer ynni glân a swyddi gwyrdd.
- Darparu myfyrwyr Aber â chyngor a chyfleoedd gyrfaoedd moesegol
- Ail-ffocysu ymchwil ac arbenigedd ar ddatrysiadau hinsawdd a dirwyn i ben yn raddol unrhyw ymchwil sy'n perthyn i danwydd ffosil sy'n niweidio'r amgylchedd.
- Mynnu mwy o gyllido ar gyfer ynni adnewyddadwy gan gwmnïau tanwydd ffosil a'r llywodraeth.

3. Rhowch derfyn ar y ffug-wyrddio.
- Cyhoeddi manylion llawn unrhyw gysylltiadau ariannol â'r diwydiant tanwydd ffosil.
- Rhoi'r gorau i gyflwyno graddau er anrhydedd i Brif Weithredwyr y diwydiant tanwydd ffosil.
- Peidio â derbyn nawdd ac arian hysbysebu gan gwmnïau tanwydd ffosil.

Cynigydd: Iolo Kars Jones
Eilydd: Jenny Hancock

# SYNIAD 2:

Lleihau gwastraff yn y Brifysgol ac yn yr Undeb.

## Y FFEITHIAU:

Mae ailgylchu'n digwydd ar lefel isel.

## BARN Y BOBL:

Er mwyn gwneud y Brifysgol yn fwy cynaliadwy.

## Y DATRYSIAD:

Mae gen i gyfarfod â Wrap Cymru ddydd Mawrth 29 i drafod opsiynau.

Cynigydd: Kelly Furlong
Eilydd: Jasmine Cross

# SYNIAD 3:

Yr ynni a ddefnyddir gan yr Undeb/y Brifysgol.

## Y FFEITHIAU:

Ar hyn o bryd, mae'n dibynnu ar y grid cenedlaethol, sydd ddim yn adnewyddadwy.

## BARN Y BOBL:

Symud at ddulliau mwy cynaliadwy o gynhyrchu ynni, gan arbed costau i'r Undeb a'r Brifysgol.

## Y DATRYSIAD:

Defnyddio paneli solar fel y brif ffynhonnell ar gyfer cynhyrchu ynni.

Cynigydd: Kelly Furlong
Eilydd: Jasmine Cross

# SYNIAD 4:

Dylai Undeb Myfyrwyr Aberystwyth annog Prifysgol Aberystwyth i fod yn gampws cyflog teg.

## Y FFEITHIAU:

Mae gwahaniaeth mewn cyflogau o fewn prifysgolion cryn lawer uwch nag ydynt yn y sectorau cyhoeddus eraill. Mae gwahaniaeth enfawr rhwng cyflog y rheiny sydd ar y cyflogau uchaf a'r rheiny sydd ar y gwaelod; byddai rhaid i'r sawl sydd ar y cyflog isaf weithio 18.8 mlynedd ar gyfartaledd i ennill cyflog blynyddol pennaeth y Brifysgol.

Ar hyn o bryd, mae is-ganghellor Prifysgol Aberystwyth yn ennill £252,000 y flwyddyn. Ar yr un pryd, mae cannoedd o staff yn ennill llai na'r Cyflog Byw, gydag amryw o'r rhain ar yr Isafswm Cyflog. Mae'r Isafswm Cyflog ar hyn o bryd yn £7.20 yr awr. Mewn wythnos waith 40 awr, bydd gweithiwr ar yr isafswm cyflog yn ennill llai na £15,000 y flwyddyn, sydd tua 17 gwaith yn llai na'r is-ganghellor.

## BARN Y BOBL:

Does dim cysylltiad amlwg rhwng prifysgol yn perfformio'n dda a'i staff yn cael eu talu'n unol â hynny. Mae chwe phrifysgol yn talu cyflog uwch i'w prif aelod staff na Phrifysgol Caergrawnt, ond yn perfformio'n is yn y tablau cynghrair.

Byddai digon o arian yn y system i dalu Cyflog Byw i'n holl staff, pe na fyddai arferion cyflogau'n canolbwyntio ar dalu cyflogau uchel i leiafrif o staff.

Mae'r Cyflog Byw yn raddfa gyflog a osodir yn annibynnol ar lefel sy'n caniatáu i bobl fyw'n weddol gyfforddus a darparu'n ddigonol ar gyfer eu teuluoedd. Mae hyn yn seiliedig ar yr egwyddor y dylai pobl gael eu talu digon i fyw, nid dim ond bodoli. Ar hyn o bryd, mae'n £8.45 yr awr.

Nid cyflog isel yw'r unig broblem sydd angen ei datrys, ac ni ddylid edrych arni ar wahân. Mae tystiolaeth bod anghydraddoldeb cynyddol yn dwysau gwrthdaro cymdeithasol, y gwanhau cysylltiadau cymdeithasol a'i fod yn niweidiol i bawb, boed gyfoethog neu dlawd.

## Y DATRYSIAD:

Er mwyn bod yn gampws cyflog teg, rydym yn annog Prifysgol Aberystwyth i wneud y canlynol:
1. Cyhoeddi'r gymhareb rhwng y cyflog uchaf a'r isaf.
2. Ymrwymo i weithio tuag at gymhareb o 10:1 ar y campws.
3. Addo talu Cyflog Byw i weithwyr a gyflogir yn uniongyrchol.
4. Sicrhau bod contractwyr yn talu Cyflog Byw i'w gweithwyr.
5. Cyhoeddi cyflogau'r Is-ganghellor ac uwch-reolwyr y sefydliad.

Ni ddylai fod unrhyw effaith negyddol ar gyflogaeth nag oriau gwaith y staff fel rhan o'r cynllun hwn.

Cynigydd: Iolo Kars Jones
Eilydd: Jenny Hancock

# SYNIAD 5:

Polisi Aflonyddu Rhywiol

## Y FFEITHIAU:

Yn 2010, pasiodd Cyngor yr Undeb bolisi "Dim Goddefgarwch o Aflonyddu Rhywiol yn ein Hundeb" oedd yn mandadu UMAber i fabwysiadu polisi ar Aflonyddu Rhywiol.

## BARN Y BOBL:

Dylai myfyrwyr deimlo'n ddiogel yn ein Hundeb ac mae'r polisi hwn yn nodi'r eglur beth i'w wneud os ydych yn dioddef aflonyddu a sut i gael cymorth; mae hefyd yn amlinellu'r broses ddisgyblu ar gyfer y rheiny sy'n ymddwyn yn amhriodol.

## Y DATRYSIAD:

Dylai aelodau Cyngor yr Undeb bleidleisio i sicrhau bod UMAber yn mabwysiadu'r polisi arfaethedig.

Cynigydd: Lauren Marks
Eilydd: Lu Egan

# SYNIAD 6:

Cynigiaf system fentora, lle gellid aseinio mentor o blith cyfoedion ar gyfer myfyrwyr o unrhyw flwyddyn.

## Y FFEITHIAU:

Mae system ar gyfer mentoriaid academaidd yn bodoli eisoes, serch hynny nid yw hon yn ymdrin â'r amryfal agweddau o fywyd yn y brifysgol

## BARN Y BOBL:

Bydd gwella cymorth ymysg cyfoedion yn cyfrannu at lesiant poblogaeth y myfyrwyr am flynyddoedd i ddod, yn ogystal â chreu cyswllt ar draws blynyddoedd astudio. Mae hwn hefyd yn gyfle i bobl gyfoethogi eu CV, gan nodi eu bod wedi mentora rhywun yn y brifysgol.

## Y DATRYSIAD:

Drwy weithredu system lle mae nifer o fentoriaid o blith cyfoedion, a fyddai ar gael unwaith yr wythnos (neu fwy?) i fentora naill ai myfyriwr unigol neu amryw ohonynt.

Cynigydd: Jordan Kraus-Harvey
Eilydd: Naomi Cutler

# SYNIAD 7:

Symleiddio polisi ein cyfarfodydd cyngor

## Y FFEITHIAU:

- Mae amserlen bresennol y cyngor yn rhy hir a chyfyngedig.
- Nid yw'r Tîm Democratiaeth wedi bod yn actif ers 12-18 mis.
- Mae amserlenni a dyddiadau cau'n aneglur.
- Mae trefn y ddadl yn gyfyngedig ac nid yw'n cynnwys mewnbwn gan gorff y myfyrwyr yn ei gyfanrwydd.

## BARN Y BOBL:

Drwy symleiddio amserlen y Cyngor, bydd yr iaith a'r prosesau'n haws eu darllen ac yn haws cyfranogi ynddynt.

Bwriad y fformat arfaethedig yw gwneud i'r Cyngor fod yn fwy cynhwysol a gosod dyddiadau cau clir i gynnal Cyngor democrataidd a chyson.

## Y DATRYSIAD:

Amserlen bresennol y Cyngor:
https://www.umaber.co.uk/pageassets/eich-undeb/printman/1.1-Cyngor-yr-Undeb.pdf

Amserlen arfaethedig y Cyngor:
https://www.umaber.co.uk/newidaber/fynghyngori/cyfarfodydd/

- Newid y Tîm Democratiaeth am Is-gadeirydd a gaiff ei ethol o'r Swyddogion Rhan Amser
- Egluro amserlenni a dyddiadau cau'r etholiad
- Annog llwyfan mwy agored ar gyfer trafod a dadlau

Cynigydd: Lauren Marks
Eilydd: Ryan Myles

# SYNIAD 8:

Diweddaru ein His-ddeddf Etholiadau

## Y FFEITHIAU:

Mae ein His-ddeddf Etholiadau'n rhy hir, cymhleth a chyfyngedig

## BARN Y BOBL:

Drwy symleiddio Is-ddeddf yr Etholiadau, bydd yr iaith a'r prosesau'n haws eu darllen ac yn haws cyfranogi ynddynt.

Bwriad y fformat arfaethedig yw gwneud i'r etholiadau fod yn fwy cynhwysol, ac yn gosod dyddiadau cau clir i gynnal etholiadau democrataidd a chyson.

## Y DATRYSIAD:

Is-ddeddf bresennol: [pdf link]
Is-ddeddf arfaethedig (tudalen flaen wedi'i labelu'n glir): [pdf link]

- Cynnwys proses glir ar gyfer cwynion ac apeliadau
- Sicrhau bod gennym etholiad teg a thryloyw

Cynigydd: Lauren Marks
Eilydd: Ryan Myles